



Dyletswydd Ansawdd

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Ymgynghoriad a Gweithrediad y Dyletswydd Ansawdd a deunyddiau cefnogi'.

Hydref 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 30**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle ma'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: llyw.cymru/deddf-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-2020-crynodeb

E-bost: IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei deall yma, [cliciwch yma](#).

Cyflwyniad.....	4
Beth ydy Dyletswydd Ansawdd?.....	6
Beth ydy ansawdd.....	8
Galluogwyr ansawdd.....	9
Safonau ansawdd.....	13
Pwy sydd yn gorfod dilyn y Dyletswydd Ansawdd.....	15
Pwy sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Dyletswydd Ansawdd yn cael ei ddilyn?.....	16
Dilyn y Dyletswydd Ansawdd.....	19
Dweud wrthyh chi sut mae pethau'n mynd.....	24
Gwneud ac edrych ar benderfyniadau.....	27
Sut fydd y Dyletswydd Ansawdd yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.....	28
Geiriau anodd.....	30

Cyflwyniad



Yng Nghymru rydyn ni wedi gwneud deddf newydd i wneud Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn well.



Enw'r ddeddf ydy [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2020](#).



Mae rhan gyntaf y ddeddf yn newid y ffordd y mae'r llywodraeth a'r GIG yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd.




Mae'n cael ei alw yn **Dyletswydd Ansawdd**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu canllaw i helpu staff mewn gwasanaethau iechyd i roi'r **Dyletswydd Ansawdd** ar waith.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am y canllaw.



Darllenwch y ddogfen yma os gwelwch yn dda ac yna ateb y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.



Anfonwch eich ffurflen ymateb wedi ei llenwi atom erbyn **17 Ionawr 2023**:



Ar e-bost: IGCAnsawddacYmgysylltu@llyw.cymru



Post: Adran Gofal Iechyd y Boblogaeth
Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



Ar-lein: Llanwch y ffurflen ymateb ar wefan Llywodraeth Cymru.

Beth ydy Dyletswydd Ansawdd?



Rydyn ni eisiau i bawb yng Nghymru gael gwasanaethau iechyd o ansawdd da.



Gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da ydy:

1. Diogel
2. Effeithiol
3. Wedi eu canoli ar y person
4. Yn cael eu darparu ar yr amser cywir
5. Wedi eu trefnu yn dda
6. Teg




Rydyn ni'n galw hyn yn **6 parth** ansawdd.

Mae **parth** yn meddwl maes.



Dyletswydd Ansawdd ydy rheolau i bobl sydd yn gwneud penderfyniadau am eich gwasanaethau iechyd.

Mae'n dweud bod rhaid i'r bobl sydd yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau iechyd feddwl am:



- Sut y bydd eu penderfyniadau yn gwella ansawdd gwasanaethau iechyd.



- Sut y bydd eu penderfyniadau yn gwella profiadau pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd.



- Sut i gadw gwelliannau i'r gwasanaethau iechyd. Mae hyn yn cael ei alw yn gynaliadwyedd.

Beth ydy ansawdd



Pan rydyn ni'n siarad am ansawdd gwasanaethau iechyd, rydyn ni'n meddwl ateb anghenion iechyd pawb:

- Bob amser – **yn ddibynadwy.**
- Yr holl amser – **yn barhaus.**
- Mewn ffordd rydyn ni'n gallu ei gynnal – **yn gynaliadwy.**

Galluogwyr ansawdd

Rydyn ni'n meddwl bod rhaid i wasanaethau iechyd o ansawdd da gael eu cefnogi gan:



1. Arweinyddiaeth



2. Diwylliant a gwerthfawrogi pobl



3. Casglu gwybodaeth i'n helpu ni i ddeall anghenion y bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Rydyn ni'n galw hyn yn **Data i Wybodaeth.**



4. Defnyddio'r wybodaeth sydd gennym ni i wella gwasanaethau.



5. Meddwl am sut mae un peth yn gallu effeithio ar un arall pan mae penderfyniadau yn cael eu gwneud. Rydyn ni'n galw hyn yn **perspectif systemau cyfan.**



Rydyn ni'n galw'r 5 peth yma yn alluogwyr ansawdd. Rydyn ni eu hangen nhw i wneud pethau yn well. Rydyn ni wedi disgrifio beth rydyn ni'n feddwl wrth bob un yma:

Arweinyddiaeth



Mae gan y corff nodau clir.



Mae gan arweinwyr a rheolwyr ragolwg hir dymor. Ac maen nhw'n gwybod sut i reoli a threfnu er mwyn cyflawni'r nodau.

Diwylliant a gwerthfawrogi pobl



Mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i wella ansawdd. Maen nhw'n teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu cynnwys.



Maen nhw'n gallu rhannu syniadau a dweud wrth bobl os ydyn nhw'n poeni am rhywbeth.

Data i wybodaeth



Rydyn ni'n casglu data ac yn gwneud synnwyr ohono.



Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd ei angen.



Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth i ddeall ein gwasanaethau yn well. I ddysgu, gwneud penderfyniadau a gwella ansawdd.

Dysgu, gwelliant ac ymchwil



Rydyn ni'n cefnogi pobl i ddysgu a darparu gwasanaethau o ansawdd gwell. A gwell canlyniadau i bobl.



Rydyn ni'n cymryd rhan mewn ymchwil. Ac yn defnyddio beth rydyn ni wedi ei ddysgu i wella gwasanaethau.

Persbectif systemau cyfan



Rydyn ni'n edrych ar beth sydd yn digwydd ar draws y corff cyfan.



Ac rydyn ni'n talu sylw i beth sydd yn digwydd y tu allan i'n corff.



Rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru i wella'r system gofal iechyd cyfan.

Safonau ansawdd



Mae gennym ni y 6 **parth** sydd yn dangos inni beth ydy gofal iechyd o ansawdd:

1. Diogel
2. Effeithiol
3. Wedi eu canoli ar y person
4. Yn cael eu darparu ar yr amser cywir
5. Wedi eu trefnu yn dda
6. Teg



Ac mae gennym ni **5 o alluogwyr ansawdd** – y pethau rydyn ni angen eu cael i gyflawni'r 6 **parth**.



Mae'r 6 **parth** a'r **5 o alluogwyr ansawdd** yn syniadau mawr ar gyfer disgrifio, cefnogi ac edrych ar ansawdd.



Gyda'i gilydd, fe fydd y 6 **parth** a'r 5 o **alluogwyr ansawdd** yn cael eu galw yn **Safonau Ansawdd**.



Rydyn ni eisiau i'r Safonau Ansawdd yma gymryd lle yr hen [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#).



Rydyn ni hefyd yn mynd i ddefnyddio'r datganiadau ansawdd sydd wedi cael eu hysgrifennu yn [Cymru Iachach](#).



Fe fydd gwasanaethau GIG yn cael eu trefnu mewn ffordd fydd yn dilyn y safonau ansawdd a'r datganiadau ansawdd.



Fe fydd y 6 **parth**, 5 **galluogwyr ansawdd** a datganiadau ansawdd yn gweithio gyda'i gilydd i'n helpu ni i wella ansawdd.

Pwy sydd yn gorfod dilyn y Dyletswydd Ansawdd



Y bobl sydd yn gorfod dilyn y Dyletswydd Ansawdd ydy:

- Gweinidogion Cymru.
- Byrddau Iechyd Lleol.
- Ymddiriedolaethau GIG, fel Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Awdurdodau Iechyd Arbennig Cymru. Fel Iechyd Digidol a Gofal Cymru sydd yn ein helpu ni i ddefnyddio technoleg ar gyfer gofal iechyd gwell.



Pwy sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Dyletswydd Ansawdd yn cael ei ddilyn?



Mae'r cyfrifoldeb yn bennaf ar Brif Weithredwyr cyrff GIG.



I'w helpu nhw fe ddylai Prif Weithredwyr ddewis:

- **Swyddog arwain** – person sydd yng ngofal cadw llygad ar y Dyletswydd yn eu gwasanaethau
- **Ac uwch swyddog arwain gweithrediadol** – person sydd yng ngofal gwneud y newidiadau sydd eu hangen i wella ansawdd



Mae Byrddau pob corff GIG hefyd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Dyletswydd Ansawdd yn cael ei ddilyn.



Dydy'r Dyletswydd Ansawdd ddim yn berthnasol i wasanaethrau gofal sylfaenol. Y gwasanaethau yma ydy'r rhai rydych chi'n mynd iddyn nhw gyntaf. Fel eich meddyg teulu, fferyllydd, deintydd ac optegydd.



A dydy e **ddim** yn berthnasol i wasanaethau sydd ddim yn wasanaethau GIG sydd yn cael eu talu i ddarparu gwasanaethau GIG gan Fyrddau Iechyd Lleol.



Yn y sefyllfaoedd yma, y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Ymddiuriedolaeth GIG sydd yng ngofal darparu gwasanaethau sydd yn gyfrifol am y Dyletswydd Ansawdd.

Rhaid i staff GIG a Llyuwodraeth Cymru ddilyn y Dyletswydd Ansawdd pan maen nhw yn:



- Prynu gwasanaethau ac offer.



- Llogi cyrff eriall i wneud gwaith iddyn nhw.



- Gweithio gyda chyrff partner. Er enghraifft elusennau a chyrff gwirfoddol.



Does dim angen i bobl ddilyn y Dyletswydd
Ansawdd os **nad** ydyn nhw yn gweithio yn:

- GIG
- Gwasanaethau Iechyd Llywodraeth Cymru

Dilyn y Dyletswydd Ansawdd

Mae'r Dyletswydd Ansawdd yn dweud bod rhaid i GIG Cymru a Gweinidogion Cymru:



- Gwneud yn siŵr bod yr holl benderfyniadau am wasanaethau iechyd yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau. A gwella profiadau'r bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd.



- Gwneud yn siŵr bod gwelliannau i wasanaethau iechyd yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod nhw yn gynaliadwy.



- Adolygu sut mae pethau yn mynd yn rheolaidd.



- Adrodd ar sut mae pethau yn mynd a dangos sut maen nhw yn dilyn y Dyletswydd Ansawdd. Rhaid iddyn nhw adrodd i'r bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau iechyd. A Llywodraeth Cymru.



- Gwneud yn siŵr bod cyrff GIG yn parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau.



Rhaid i wasanaethau GIG gael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sydd yn caniatáu inni barhau i wella.



Mae gan yr holl staff iechyd ran i'w chwarae mewn gwella ansawdd gwasanaethau.



Rhaid i wasanaethau iechyd weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd i wella ansawdd ar draws Cymru.



Mae'r canllaw yn disgrifio 6 cam i'w cymryd i helpu cyrff i wneud y pethau yma. Dyma nhw:

1. Gwneud yn siŵr bod y Bwrdd yn cefnogi gwaith i wella ansawdd.



Y Bwrdd sydd yn gosod nodau i wasanaeth. Rhaid iddyn nhw fod yn fodlon buddsoddi amser ac arian i waith i wella gwasanaethau.

2. Gwneud yn siŵr eu bod yn barod i ddilyn y Dyletswydd Ansawdd



Fe fydd angen i gyrff edrych ar wasanaethau a mesur canlyniadau i ddeall beth ydy eu gwendidau a lle mae bylchau mewn ansawdd.



Rhaid iddyn nhw feddwl os ydy eu staff yn barod i wneud y newidiadau sydd eu hangen. A hefyd os oes ganddyn nhw y cynlluniau a'r strwythur cywir i gefnogi newid.

3. Cael cefnogaeth gan bobl eraill sydd yn gweithio yn y corff



Fe ddylai staff deimlo cymhelliant i wella ansawdd. Fe ddylid cael rolau arwain ar wahanol lefelau o'r corff.



Fe ddylai staff gael y cyfle a'r hyder i brofi syniadau newydd. Fe ddylai arweinwyr ddathlu timau staff sydd yn gwneud yn dda.

4. Datblygu sgiliau ac adnoddau



Mae angen systemau da i reoli gwelliannau, Fe ddylai fod gan dimau lefel cywir o sgiliau i ateb galwadau newid.



Fe ddylen ni gael ffyrdd o fesur gwelliannau. Fe ddylen ni i gyd weithio yn yr un ffordd er mwyn inni allu darparu'r un lefel o ansawdd.

5. Cytuno ar gynllun gweithredu



Fe ddylai syniadau a newidiadau i wella ansawdd gael eu cysylltu gyda nodau a chynlluniau cyffredinol y corff.

6. Cefnogi agwedd corff cyfan



Rhaid i'r Bwrdd fuddsoddi amser ac arian i wneud gwelliannau.



Fe fydd yn cymryd amser i welliannau ddod yn rhan o'r ffordd arferol o weithio.



Mae angen inni annog staff a dathlu pethau sydd yn mynd yn dda tra'n cefnogi staff i ganolbwyntio ar weithio bob amser i wella ansawdd.

Dweud wrthyhych chi sut mae pethau'n mynd



Fe fydd angen i GIG Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i weld sut mae pethau'n mynd.

Mae hyn yn meddwl edrych ar:



- Penderfyniadau sydd yn cefnogi gwasanaethau iechyd o ansawdd.
- Sut mae'r Dyletswydd Ansawdd yn cael ei ddilyn yn eu holl wasanaethau.



- Beth maen nhw wedi ei ddysgu.
- Sut maen nhw'n cefnogi gwell profiadau i'r bobl sydd yn defnyddio eu gwasanaethau.



- Sut fyddan nhw yn cadw'r gwelliannau maen nhw wedi eu gwneud i'w gwasanaethau i fynd.

Rhaid iddyn nhw adrodd ar sut mae'r pethau yma yn mynd. Fe fyddan nhw yn gwneud hynny drwy:



1. Ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn



2. Adrodd parhaol. Mae hyn yn meddwl casglu, edrych ar a gwneud gwybodaeth am ansawdd gwasanaethau ar gael i bobl yn aml, ar hyd y flwyddyn.



Fe ddylen nhw ddefnyddio gwybodaeth yn eu hadroddiadau sydd yn dangos sut maen nhw wedi:

- Dilyn y Dyletswydd Ansawdd wrth wneud penderfyniadau.
- Gwneud newidiadau yn seiliedig ar beth maen nhw wedi ei ddysgu.
- Gwneud gwelliannau i ansawdd.
- Gwell canlyniadau i bobl.





Fe fydd yr adroddiad blynyddol yn grynodedb byr o beth sydd wedi digwydd.



Maen nhw'n gallu dweud wrth bobl i ddarllen yr adroddiadau **Parhaol** ochr yn ochr gyda'r adroddiad blynyddol. Fe fyddan nhw yn cael eu hysgrifennu yn fwy aml yn ystod y flwyddyn gyda mwy o fanylion am beth sydd wedi digwydd.



Rhaid i Weinidogion Cymru ddweud wrth y Senedd pa mor dda mae cyrff GIG yn dilyn y Dyletswydd Ansawdd.

Gwneud ac edrych ar benderfyniadau



Mae gan bob corff GIG a Bwrdd Iechyd Lleol **Fwrdd**. Maen nhw'n edrych i weld sut mae pethau'n cael eu rheoli a'u rhedeg.. Maen nhw edrych ar waith y corff i wneud yn siŵr ei fod yn cyfarfod ei nodau.



Grwpiau o bobl ydy Byrddau sydd yn cyfarfod i edrych dros waith corff a gwneud penderfyniadau ar sut mae corff yn cael ei redeg.



Rhaid i Fyrddau wneud yn siŵr bod Dyletswydd Ansawdd yn cael ei feddwl amdano ym mhob proses a system. Ac wrth wneud penderfyniadau.



Rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gwaith tuag at y Dyletswydd Ansawdd yn cael ei edrych arno. Fe ddylid meddwl amdano yn y systemau sydd yno yn barod, Ac fe ddylid ei wneud yn rhan o bob system a chynllun newydd.



Fe fydd Arolygiaeth Iechyd Cymru hefyd yn meddwl am y Dyletswydd Ansawdd pan maen nhw yn edrych ar wasanaethau iechyd.

Sut fydd y Dyletswydd Ansawdd yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl



Rydyn ni wedi ceisio'n galed i feddwl am sut y gallai Dyletswydd Ansawdd effeithio ar bobl sydd yn teimlo eu bod yn perthyn i grŵp arbennig.



Mae hyn yn cael ei alw yn **nodweddion gwarchodedig**. Nodweddion gwarchodedig ydy:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas neu bartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd neu mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gredoau
- Rhyw
- Dewis rhywiol



Rydyn ni'n credu y bydd y Dyletswydd Ansawdd yn fantais i bawb gyda **nodweddion gwarchodedig**.



Fe fyddwn ni yn parhau i siarad gyda pobl i wneud yn siŵr nad oes neb yn cael eu heffeithio yn ddrwg gan y Dyletswydd Ansawdd.

Geiriau anodd

Parthau

Mae parthau yn meddwl meysydd.